| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **30 MEDI 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – UNIVERSITY PLAICE, FFORDD CAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo University Plaice, 21 Ffordd Caergybi, Bangor uchaf, LL57 2EU oddi wrth Mr Mehmet Ali Usal a Miss Nia Haf Davies . Cyflwynir y cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol. Lleolir yr eiddo ymysg rhes o fusnesau a siopau ym Mangor Uchaf, ac fe ddarparir lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo.

Gofynnir am ymestyniad o oriau gweithgaredd trwyddedig ac agor fel a ganlyn -

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** |
|---|---|---|
| Dyddiau | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** | **Oriau darparu lluniaeth hwyr** |
| **Sul/Iau** | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 02:30 |
| | | |
| **Gwen/Sad** | 23:00 - 02:30 | 23:00 – 03:30 |

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebiad |
| Cyngor Dinas Bangor | E bost - gwrthwynebiad |
| Preswylydd/Aelod Cyngor Dinas Bangor | Llythyr – gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | 2 e Bost - amodau , dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Aelodau Lleol
Derbyniwyd e bost yn gwrthwynebu gan ddau o aelodau lleol , ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

### Cyngor Dinas Bangor
Derbyniwyd e bost yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus

### Preswylydd ac aelod o Gyngor Dinas Bangor
Gwrthwynebir y cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Nodir fod yr eiddo mewn ardal breswyl, ac yn agos i Britannia Square lle mae pobl oedrannus a bregus yn preswylio.

**Preswylydd Cyfagos**
Mae'r preswylydd yn byw yn agos iawn i'r eiddo ac yn pryderu fod yr ymestyniad mewn oriau yn mynd i danseilio'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus.

**Heddlu Gogledd Cymru**
Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais am ymestyniad oriau. Safbwynt yr Heddlu yw bod yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed TCC a Goruchwylwyr Drysau. Nodir yn ogystal fod yr Heddlu yn cydnabod fod Bangor Uchaf yn ardal breswyl; a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau ar nos Wener a nos Sadwrn yn unig oherwydd hyn.

Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.